Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Cofnodion cyfarfod Bwrdd Cynghori Cenedlaethol AGC 4 Hydref 2023

## Croeso ac Ymddiheuriadau

Y sawl a oedd yn bresennol

- Dr Ruth Hussey (Cadeirydd)
- Andrea Cooper, Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn
- Stuart Davies
- Natalie Fletcher Rachel Harris
- Peter Max
- Julia Nawell
- Claire Protheroe
- Jenny Williams
- Sharon Williams
- Mary Wimbury

Cynrychiolwyr AGC

- Gillian Baranski
- Margaret Rooney Kevin Barker
- Ceri Herbert Emma Mackintosh
- Myfanwy Moran
- Richard Payne
- Siobhan Thomas-Peters

Ymddiheuriadau

- Melanie Davies
- Carole Jones
- Bethan Louise Kay
- Simon Hatch
- Rachel Thomas, Children’s Commissioner’s Office
- Órlaith Brennan
- Vicky Poole

## Camau gweithredu o'r cofnodion blaenorol – 6 Gorffennaf 2023

**Cam gweithredu blaenorol:** Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn a Swyddfa'r Comisiynydd Plant i gadarnhau manylion cyswllt y cynrychiolwyr cyfredol. ***Wedi'i gwblhau***

**Cam gweithredu blaenorol:** Diweddaru a diwygio strategaeth ddrafft AGC ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar sail adborth yr aelodau a'i hanfon eto at yr aelodau. ***Wedi'i gwblhau***

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

## Sgwrs agoriadol a Chwestiynau ac Atebion

Cafwyd trosolwg gan y Prif Arolygydd Gillian Baranski o'r pwysau yn y sector gofal sydd, er gwaethaf hyn, yn dal i ddarparu gofal da i'r rhan fwyaf o bobl.

**Recriwtio staff:** Mae'r profiad sydd ei angen ar arolygwyr yn effeithio ar broffil oedran staff AGC ac mae'n amlygu'r ffaith bod angen sicrhau bod prosesau recriwtio yn meithrin cydnerthedd. Ni phenodwyd unrhyw aelodau newydd o staff. O ystyried ei bod yn debygol y bydd arolygwyr profiadol yn gadael ac y bydd newidiadau staffio, gofynnodd Peter Max (Partnerships for Progress) o ble y mae arolygwyr y dyfodol yn debygol o ddod os oes ganddynt y profiad? Yn ôl pob tebyg, maent wedi dod o'r GIG, awdurdodau lleol neu swyddi yn y sector gofal? A oes ffordd o wneud pethau mewn ffordd ychydig yn wahanol – bron fel prentisiaethau neu fath newydd o rôl i roi hyfforddiant mewn swydd? A yw hyn wedi cael ei ystyried, llwybr at rôl arolygydd o fewn AGC?

Yn achos gofal plant a chwarae, dywedodd Gillian fod arolygwyr yn aml yn athrawon/arbenigwyr blynyddoedd cynnar. O ran gwasanaethau oedolion a phlant, maent yn aml yn gymysgedd o weithwyr cymdeithasol a nyrsys. Bydd y tîm awdurdodau lleol fel arfer yn cynnwys pobl sydd â phrofiad o rolau uwch o fewn awdurdodau lleol. Rydym yn gwybod ein bod yn recriwtio o feysydd sydd eisoes o dan bwysau. Mae ‘datblygu eich staff eich hun’ yn opsiwn deniadol gyda'n gweithlu cymwysedig a phrofiadol. Mae hyn yn sicr yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried a gallwn weld gwerth gwirioneddol mewn datblygu ein staff ein hunain.

**Cyflwyno graddau mewn gwasanaethau oedolion a phlant:** Esboniodd Gillian fod AGC wedi dysgu llawer o'i gwaith gofal plant a chwarae am yr hyn y dylid ei wneud a'r hyn na ddylid ei gwneud wrth gyflwyno graddau. Mae graddau mud yn ein helpu i weithio gyda darparwyr i brofi sut mae graddau'n gweithio a sicrhau cysondeb. Gwnaethom gynnal digwyddiadau i ddarparwyr ym mis Medi ac roedd yn galonogol gweld cyffro rhai a oedd wedi cael graddau ardderchog. Rydym wedi gweld amrediad da o raddau hyd yma gyda llawer yn cael gradd ‘da’. Mae'r peilot yn rhoi cyfle i ni werthuso.

Pwysleisiodd Mary Wimbury (Fforwm Gofal Cymru) ei bod yn bwysig sicrhau bod graddau'n cael eu cyflwyno mewn ffordd briodol a chyson gan fod y sector o dan bwysau o hyd o ganlyniad i heriau staffio. Rydym yn gweld bod llawer o bobl yn ailasesu'r hyn y maent yn ei wneud yn dilyn y pandemig. Mae hynny'n wir am ddarparwyr yn ogystal â staff, ac mae'r ddau yn gysylltiedig â'i gilydd. Ni fyddem am golli pobl o'r sector ar hyn o bryd am eu bod yn teimlo o dan fwy o bwysau. Gofynnodd Mary hefyd a all darparwyr gofal sy'n cael gradd ‘ardderchog’ fel rhan o'r peilot graddau mud presennol gyhoeddi hyn.

Cadarnhaodd Margaret Rooney y gall darparwyr rannu eu gradd fud. Pwysleisiodd fod yn rhaid i bawb gofio mai peilot yw hwn. Diben y peilot yw profi'r fframwaith a'r trothwyon a sicrhau cysondeb. Mae'n gwneud synnwyr felly y gall y radd a gyhoeddir fod yn fwy ‘cywir’ a deillio o broses sydd wedi'i phrofi'n llawn.

Esboniodd Margaret hefyd fod AGC wedi gwneud mwy o waith ar drothwyon ar gyfer ‘meysydd i'w gwella’ (sy'n arwain at raddau ‘angen gwella’) a ‘hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth’ (sy'n arwain at radd ‘gwael’).

## Lleisiau aelodau'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol

Rhoddodd Claire Protheroe (PACEY Cymru) gipolwg ar sut mae newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant yn effeithio ar ddarparwyr.

Dywedodd fod y Safonau diwygiedig bellach yn cynnwys canllawiau cliriach ar sut y gall gwarchodwyr plant weithio gyda chynorthwyydd a pha gymwysterau sydd eu hangen arnynt. Fodd bynnag, mae cyllid ar gyfer y cymwysterau hyn wedi cael ei oedi. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r cymwysterau hyn ond mae ansicrwydd o hyd ynghylch pryd yn union mae'r dyddiad cau.

Mae meini prawf mwy llym ar waith bellach ar gyfer hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu, ac mae'n rhaid i'r staff gwblhau'r hyfforddiant hwn erbyn y dyddiad cau, sef mis Tachwedd 2024.

Cadarnhaodd Kevin Barker ei fod wedi cyfathrebu â chydweithwyr polisi yn Llywodraeth Cymru ynghylch y materion hyn. Cafodd y diwygiadau i'r Safonau eu gwneud gyda'r bwriadau gorau ac mewn partneriaeth â'r sector, ond mae goblygiadau ariannol.

Esboniodd Gillian ei bod yn ddefnyddiol clywed sut mae'r oedi a'r penderfyniadau yn effeithio ar y sector. Cadarnhaodd y bydd AGC yn trosglwyddo'r neges honno i gydweithwyr polisi yn Llywodraeth Cymru ac y bydd yn effro iawn i effaith yr hysbysiad hwyr hwn, yn nhermau unrhyw gamau y byddwn yn eu cymryd.

Dywedodd Kevin Barker y byddai'n disgwyl i arolygwyr ymdrin â'r mater hwn mewn ffordd gymesur lle bo hynny'n bosibl.

Cyfeiriodd Peter Max at debygrwydd rhwng y data sy'n cael eu casglu gan AGC a Gofal Cymdeithasol Cymru. Dywedodd fod dymuniad gwirioneddol i wneud y broses mor syml â phosibl i bob darparwr.

Disgrifiodd Gillian Baranski sesiwn arwain ar y cyd a gynhaliwyd gan y ddau sefydliad yn ddiweddar lle trafodwyd TGCh ac ymchwiliwyd i'r pethau eraill y gallwn eu gwneud gyda'n gilydd.

Cadarnhaodd Margaret Rooney fod hyn yn rhywbeth rydym am ei gyflawni. Gwyddom ein bod yn casglu llawer o ddata yn y datganiad blynyddol y gallwn eu rhannu â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae casglu mwy o ddata yn rhywbeth rydym wedi cytuno ei wneud gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, rydym am wneud hyn ond mae angen yr amser a'r adnoddau arnom i wneud hynny.

Siaradodd Rachel Harris (ymarferydd gofal plant a chwarae) am arweinyddiaeth a chymorth tosturiol i staff sy'n gweithio yn y sector gofal plant a chwarae, y mae nifer cynyddol ohonynt yn barod i drafod problemau iechyd meddwl. Roedd hi am wybod sut y gellid cefnogi arweinwyr yn y maes hwn.

Crybwyllodd Gillian Baranski borth Gofal Cymdeithasol Cymru ar gefnogi arweinwyr ym maes gofal plant a chwarae a gofal cymdeithasol, a dywedodd Margaret Rooney fod y pwnc yn cyd-fynd â gwaith AGC ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a diwylliannau cadarnhaol.

Cyfeiriodd Rachel hefyd at iechyd meddwl a llesiant staff. Dywedodd ei bod yn gyffrous iawn bod staff yn teimlo y gallant ddod ymlaen a dweud bod ganddynt broblem iechyd meddwl a'u bod yn teimlo'n fwy cyfforddus i drafod hynny. Mae'n rhywbeth y mae pawb yn ei drafod yn ddigon hapus. I rai pobl ifanc, dyma eu swydd gyntaf ac mae'n bwysig eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Dywedodd Margaret Rooney fod y drafodaeth wedi ei hysgogi i ystyried cymorth ar gyfer Unigolion Cyfrifol ym maes gofal plant a chwarae yng nghymuned ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru, ac y byddai'n trosglwyddo'r wybodaeth hon.

Cytunodd Dr Ruth Hussey fod demograffeg y bobl sy'n ymuno â'r gweithlu yn fater pwysig a oedd wedi cael ei godi gan bobl eraill.

Dywedodd Natalie Fletcher (Unigolyn Cyfrifol mewn gwasanaeth plant) fod iechyd meddwl a llesiant hefyd yn berthnasol i'r sector preswyl i blant, yn enwedig ar ôl pandemig COVID-19. Dywedodd Natalie eu bod wedi creu rolau newydd ar gyfer therapyddion a chwnselwyr staff. Dywedodd eu bod yn gweld bod angen cymorth iechyd meddwl ar fwy a mwy o staff, ac ychwanegodd: “Mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn addasu i gefnogi eich staff, er mwyn gwneud yn siŵr y gallwch barhau i ddarparu'r gwasanaeth.”

Dywedodd Ruth: “Mae'n tynnu sylw at unigrwydd rôl uwch-reolwr a'r ffaith bod angen rhwydweithiau cymorth arnom i gyd er mwyn ymdopi â sefyllfaoedd sy'n newid.”

Cytunodd Myfanwy Moran (Uwch-reolwr, tîm arolygu awdurdodau lleol AGC) a phwysleisiodd fod hyn yn bwysig o ran cadw staff, llesiant staff a chefnogi pobl yn ystod eu profiad cyntaf ym myd gwaith o bosibl. Mae AGC wedi gweld rhai enghreifftiau o awdurdodau lleol yn cynnal sesiynau seicoleg er mwyn cefnogi'r staff a rhai arferion arloesol ym maes llesiant staff. Mewn amgylchedd cystadleuol mae angen cynnig y mentrau llesiant hyn lle bo hynny'n briodol.

## Canfyddiadau allweddol o Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd ar gyfer 2022-23

Rhoddwyd copi cynnar i'r aelodau o'r bennod ‘Myfyrdodau’ o Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd ar gyfer 2022-23 a gofynnwyd am eu hadborth ar y ‘galwadau i weithredu’.

Roedd yr adborth a gafwyd yn cynnwys gwneud y ‘galwadau i weithredu’ yn fwy penodol a chlir fel bod pawb, gan gynnwys y sector iechyd, y sector addysg a'r trydydd sector, yn gyfrifol am feysydd fel diogelu, nid y sector gofal cymdeithasol yn unig.

Roedd yr aelodau yn argyhoeddedig na ddylai AGC geisio dyblygu gwaith da a wneir gan gyrff eraill fel Gofal Cymdeithasol Cymru ynghylch ymarfer cadarnhaol.

Dylai arferion da gael eu rhannu mewn ffordd fwy cyhoeddus gan y byddai hynny yn helpu i godi proffil y sector ac, felly, yn helpu i recriwtio a chadw staff.

**Cam gweithredu:** Cynnal trafodaeth hwy cyn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd ar gyfer 2023-24 er mwyn sicrhau bod safbwyntiau'r aelodau yn cael eu cynnwys yn fanwl.

## Gweithio gyda'n gilydd

Rhoddodd y Prif Arolygydd Gillian Baranski drosolwg o'r Adolygiad cyflym diweddar o drefniadau amddiffyn plant. Esboniodd fod y broses yn gweithio'n briodol ar y cyfan ond gwelsom broblemau ym maes recriwtio a chadw staff, ansefydlogrwydd yn y gweithlu a chyfathrebu o fewn a rhwng asiantaethau partner.

Gwelsom arferion rhagorol, ond nid ym mhobman. Gwelsom staff hynod ymroddedig, felly mae dyletswydd arnom i wella'r system er eu lles nhw. Ar gyfer iechyd ac addysg, am nad oes systemau cofnodi electronig ar waith, gwelsom nodiadau mewn llawysgrifen annarllenadwy y byddai'n anodd eu rhoi ar waith.

Er mwyn helpu darparwyr i rannu arferion gorau, cefnogi ei gilydd a rhannu syniadau, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi creu cymuned ymarfer ar-lein ar gyfer Unigolion Cyfrifol.

Trafododd Margaret Rooney y gwaith ar **ddiwylliannau cadarnhaol**, y mae AGC wedi bod yn ei wneud ar y cyd â Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru a phartneriaid. Esboniodd mai'r uchelgais yw datblygu fframwaith ymarfer cadarnhaol sy'n cynnwys pecynnau cymorth y gall pobl eu defnyddio, a fydd yn integreiddio diwylliannau cadarnhaol i mewn i fentrau eraill fel fframweithiau comisiynu, newidiadau i reoliadau a chanllawiau statudol. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Cadarnhaodd Margaret y bydd AGC yn cyflwyno hwn i'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol eto er mwyn cael mewnbwn yr aelodau ar yr hyn y gallai'r fframwaith ei gynnwys a'r ffordd orau o'i gyflwyno er mwyn gwneud gwahaniaeth i bobl.

Dywedodd Dr Ruth Hussey fod y system gyfan yn dylanwadu ar ddiwylliannau cadarnhaol ac y gallai fod yn fuddiol i AGC a chyrff eraill gydweithio â'r GIG ar y mater hwn.

Trafododd Margaret **waith AGC ar yr hyn sy'n nodweddu gwasanaeth cartref gofal da i blant**. Mae gan Arolygiaeth Gofal yr Alban ganllawiau defnyddiol i ddarpar ddarparwyr cartrefi gofal i blant. Mae AGC yn awyddus i lunio canllawiau tebyg. Mae AGC yn gweithio gyda darparwr, Consortiwm Comisiynu Plant Cymru, swyddfa'r Comisiynydd Plant a Llywodraeth Cymru i'n helpu i ddatblygu'r canllawiau hyn.

Gofynnodd Dr Ruth Hussey a fydd y grŵp yn gwrando ar leisiau plant a phobl ifanc fel rhan o'r broses honno. Cadarnhaodd Margaret y bydd hyn yn agwedd bwysig ar y gwaith.

Dywedodd Natalie Fletcher y dylai datganiad o ddiben gwasanaeth amlinellu ethos a diwylliant y gwasanaeth.

Pwysleisiodd ei bod yn bwysig iawn bod gan gartrefi plant weledigaeth glir am fod popeth yn seiliedig ar y model y byddwch yn dewis ei ddefnyddio. Er mwyn efelychu cartref teuluol, byddech am greu cysylltiadau â cholegau a threfi fel y gall y plant fanteisio ar y pethau hynny.

Dywedodd Dr Ruth Hussey fod angen cynnwys ymchwil i lenyddiaeth a thystiolaeth er mwyn ategu'r canllawiau. Gall gwersi a ddysgwyd ledled y DU neu wersi a ddysgwyd yn rhyngwladol fod yn berthnasol yn hyn o beth.

Dywedodd Peter Max fod angen annog awdurdodau lleol i osgoi gorlenwi mewn rhai ardaloedd. Mae angen rhyw fath o waith cynllunio a ffyrdd gwahanol o ymgysylltu er mwyn sicrhau llwyddiant; o safbwynt cyflawni, nid oes neb am weld chwe elusen yn buddsoddi yn yr un pentref.

Esboniodd Margaret Rooney nad oes gan AGC y pŵer i wrthod cais am nad oes digon o alw mewn ardal.

Os nad yw awdurdodau lleol am weld darparwyr yn dewis yr ardaloedd rhataf yn unig, dywedodd Mary Wimbury na ddylid comisiynu ar sail cost.

Yn Lloegr, dywedodd Mary fod Ofsted yn cofrestru cartrefi plant a bod yn rhaid i'r darparwr gwblhau asesiad o leoliad fel rhan o'r broses gofrestru a dangos ei fod wedi ymgynghori â'r heddlu a'r awdurdod lleol fel rhan o'r asesiad hwnnw. Rhaid iddo ddangos hefyd fod angen y ddarpariaeth yn yr ardal honno a bod mynediad digonol at addysg, gwasanaethau iechyd ac ati.

## Prosiect gwella gofal plant a chwarae

Rhoddodd Ceri Herbert (Uwch-reolwr, tîm Arolygu Gofal Plant a Chwarae AGC) drosolwg o ymateb AGC i'r adolygiad annibynnol o warchod plant a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y canfyddiadau eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2023, gan gynnwys 23 o argymhellion.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydlynu'r ymateb i'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad. Mae AGC yn ystyried naw argymhelliad mewn perthynas â'i gwaith ym maes cofrestru, arolygu, cymorth i warchodwyr plant cofrestredig i'w helpu i aros yn y sector a dymchwel rhwystrau i'r rhai sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd.

Mae AGC wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen mewnol i ystyried yr hyn rydym yn ei wneud yn barod ac unrhyw beth arall y gallwn ei wneud, a grŵp allanol sy'n cynnwys PACEY a chyrff eraill. Nododd Ceri ei bod yn gadarnhaol bod gwaith eisoes yn mynd rhagddo ar sawl argymhelliad.

Yna, siaradodd Kevin Barker (Pennaeth Arolygu Gofal Plant a Chwarae AGC) am brosiect gwella gofal plant a chwarae AGC sy'n ceisio sicrhau canlyniadau gwell i blant. Mae'r sector o dan bwysau ac mae'r prosiect yn edrych ar rôl AGC wrth geisio gwella pethau, yn unol ag un o egwyddorion canllaw AGC, sef cefnogi gwelliannau ac arloesi.

Cafwyd ymateb cadarnhaol dros ben i'r prosiect hyd yma.

Cafodd y gwaith ei ganmol gan Peter Max. Cyflwynodd her adeiladol: gall darparwyr fod yn bryderus am anogaeth i fabwysiadu arferion gorau gan mai nhw sy'n dewis a ddylid eu mabwysiadu ai peidio ar sail eu hamgylchiadau penodol. Gofynnodd Peter a oedd AGC yn disgwyl mai dyma fyddai'n peri'r anhawster mwyaf?

Dywedodd Kevin mai dyma fyddai'n peri'r anhawster mwyaf. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd hyder ein gweithlu ynghylch dweud yn bendant 'mae hyn yn edrych yn dda iawn, beth am i chi ystyried ei wneud yn y ffordd hon' yn peri mwy o her oherwydd pryder y byddwn yn marcio ein gwaith cartref ein hunain y tro nesaf y byddwn yn arolygu. Mae angen i ni gael cydberthynas aeddfed â'r sector, bod yn gyfforddus i gymryd rhai risgiau a chydnabod na fydd hynny'n gweithio o bosibl mewn lleoliad arall. Yn y pen draw, y darparwr sy'n gyfrifol am ansawdd ei ddarpariaeth, nid AGC. Cyfeirio a chyflwyno opsiynau y byddwn yn ei wneud yn hytrach na dweud 'ein cyngor yw...'

Gofynnodd Dr Ruth Hussey sut y bydd AGC yn dewis beth yw arfer orau a pha ddiffiniadau sy'n cael eu defnyddio. Dywedodd y byddai angen cysylltiad clir â chanlyniadau er mwyn i AGC ei gefnogi fel rheoleiddiwr – bydd angen i AGC fod yn hyderus y bydd y ffordd honno o weithio yn gwella canlyniadau.

Dywedodd Kevin fod graddau yn cysylltu â hyn. Esboniodd y gall thema gael gradd 'da' yn gyffredinol ond y gall AGC weld rhywbeth sy'n 'rhagorol' ac y bydd angen i ni fod yn ddewr wrth siarad am hynny pan fyddwn yn dod ar ei draws. Dylai'r graddau roi cysur i ni fod gennym fethodoleg i ddod i'r casgliad hwnnw. Mae trafodaeth yn mynd rhagddi am beth sy'n nodweddu arfer dda, arfer ragorol, a/neu arfer nodedig.

Diolchodd Claire Protheroe (PACEY Cymru) i Kevin am y gwaith sydd wedi cael ei wneud hyd yma. Dywedodd y bydd yn ddiddorol iawn gweld sut y bydd y gwaith hwn yn datblygu, yn enwedig pan gaiff y cylch gwaith ei ehangu. Dywedodd fod rôl AGC ym maes gwelliant yn un o'r pethau a ddaeth allan o'r adolygiad annibynnol o warchod plant hefyd.

Dywedodd Ceri Herbert y bydd angen i AGC edrych yn wrthrychol ar 'arferion gorau', a chanolbwyntio ar ganlyniadau i blant. Efallai na fydd rhywbeth sy'n gweithio'n wych mewn un lleoliad ac yn arwain at ganlyniadau rhagorol i blant yn gweithio mewn lleoliad arall, felly bydd angen i'n penderfyniadau ynghylch arferion da neu arferion gorau fod yn seiliedig ar sut mae'r arferion hynny yn effeithio ar blant.

**Cam gweithredu:** Cytunodd Kevin Barker i rannu'r ddogfen gynnig â'r aelodau.